# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Chwefror 2021 – Cyfrol 6 – Rhifyn 5

## Llifogydd, rhew, eira – wel am wythnos!



Crëwyd afon newydd ar y ffordd i lawr o'r gwaith carthion... (*Gem Wood*)



... a gwarchodfa natur newydd (*Roger Rowett*)



Llangwyfan wedi'i fframio'n dwt mewn ffenest (*Cal Venning*)



Penycloddiau (*Simon Jackson*)

# Pytiau newyddion y pentre

**Llongyfarchiadau** i Beca, Ysgubor Efa ar basio Gradd 5 Piano ac i Manon Dafydd, Bryn Ffolt gynt, ar ennill gradd MA mewn Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol.

**Croeso** i Geraint Bellington a Jane Borthwick sy wedi cartrefi yn Millbrook; hefyd i Malcolm, Sarah a'r teulu sydd wedi symud i 32 Maes Clwyd.

**Pob dymuniad** da i Lis Morris sy yn ysbyty Glan Clwyd.

**Cydymdeimlwn** â theulu'r diweddar May Foulkes, Pentrefelin ac â theulu'r diweddar David Clwyd Davies, Delfryn gynt a fu farw'n 67 oed yn ddiweddar.

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Mrs Faith Yvonne Stockle. Mam Lorna Jones oedd Faith a symudodd i Landyrnog 22 mlynedd yn ôl pan estynnodd Clive a Lorna eu cartref er mwyn galluogi Faith i ddod i fyw atyn nhw. Roedd hi'n hynod falch o James ac Alex, yn gofalu amdanyn nhw pan oedden nhw'n fabanod, ac yn eu gwylio'n tyfu'n oedolion. Wrth gwrs, roedd magu ei gor-ŵyr, Felix, yn rhoi pleser mawr iddi hefyd. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu.

**Pen blwydd hapus hwyr** i Elin Wyn, Hafod y Bryn yn 30 oed. Hefyd i Hughie Plumb ddaru ddathlu penblwydd '0' arbennig ganol Ionawr.

**Capel y Dyffryn** Bydd Gwasanaethau Bore Sul am 9.45am ar-lein yn parhau yn y dyfodol agos oherwydd cyfyngiadau newydd Covid-19.

### Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 3pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**


BAASTOOL
• CALON WLÂN •

Baa Stool is a range of luxury British sheepskin furniture and home accessories with removable covers lovingly created in our workshop at The New Barn,

13 Vale Park,
Colomendy Industrial Estate,
Denbigh LL16 5TA.

www.baastool.co.uk






*Locally bred and home-killed meat*

**Hours of business:**

**Monday — closed**

**Tuesday-Friday 8am–5:30pm**

**Saturday 8am–2pm**

***Deliveries daily throughout the area***

# Dydd Sant Ffolant a Llwyau Caru

Does dim yn well na derbyn cerdyn rhamantus gan eich cariad/partner/gŵr/gwraig i ddathlu Dydd Santes Dwynwen, Ionawr 25 neu Ddydd San Ffolant Chwefror 14. Os ydi'r person yn eich bywyd yn rhamantus iawn, falle cewch chi dderbyn cerdyn **a** thusw o flode **a** siocled yn anrheg, ar y **ddau** ddiwrnod arbennig! Amcangyfrifir bod 148 miliwn o gardiau'n cael eu prynu adeg Sant Ffolant, a choeliech chi mai'r merched sy'n prynu 85% ohonyn nhw?

Felly, pwy oedd Sant Ffolant? Mae lle i gredu mai offeiriad o Rufain oedd *Sant Valentino* ac yn byw yn y drydedd ganrif. Roedd yr ymherodr, Clawdiws 2il, wedi gwahardd pob milwr Rhufeinig rhag priodi, yn y gred bod milwyr priod yn llawer salach milwyr na'r rhai dibriod! Teimlai *Valentino* fod hyn yn hollol annheg, a dechreuodd drefnu a gweinyddu priodasau yn y dirgel. Pan gafodd Clawdiws wybod am hyn, taflodd *Valentino* i'r carchar a'i ddedfrydu i farwolaeth. Yno, fe syrthiodd *Valentino* mewn cariad â merch ceidwad y carchar. Cafodd ei ddienyddio ar Chwefror 14, a chafwyd hyd i lythyr caru ganddo i'r ferch arbennig hon, wedi ei arwyddo '*dal tuo Valentino*' – gan dy annwyl Ffolant.

Mae hi'n arferiad yng Nghymru ers canrifoedd i roi llwy garu yn anrheg i ddangos cariad i ddathlu Sant Ffolant. Er ein bod ni'n meddwl mai traddodiad hollol Gymreig ydi hyn, mae llwyau caru wedi cael eu cynhyrchu drwy Ewrop gyfan. Ond, ar y cyfan, dydi'r rhain ddim mor brydferth â rhai Cymru.

Wel, doedd dim ffonau symudol, ceir, beiciau modur, radio, teledu, ffilmiau na gemau cyfrifiadur ganrifoedd yn ôl. Byddai bechgyn yn treulio'u horiau hamdden yn cerfio llwyau pren hardd i'w rhoi i ferch arbennig – roedden nhw'n methu fforddio anrhegion drud. Wrth dderbyn y llwy, byddai'r ferch yn dangos bod ganddi fymryn o ddiddordeb, a hynny'n arwain at ddechrau 'canlyn'. Mwya'n y byd o gerfiadau oedd ar y llwy, mwya'n y byd o deimladau oedd tuag at y ferch!

Mae arddangosfa wych o lwyau caru cynnar yn yr Amgueddfa Werin yng Nghaerdydd, ac un llwy'n dyddio'n ôl i 1667! Dros y blynyddoedd, daethant yn bethau i'w casglu – mae gan wraig ym Merthyr Tudful gasgliad o dros bedwar cant o lwyau caru!

Yn draddodiadol, mae'r llwyau caru wedi eu cerfio o un darn o bren – sycamorwydden, fel arfer. Byddai'r crefftwr yn hollti'r boncyff yn ddwy, yn amlinellu cynllun ar y pren a thorri'r ffurf sylfaenol allan o un hanner. Yna, cerfio'n fwy manwl, ei rhwbio efo papur gwydr a'i sgleinio efo cŵyr gwenyn. Doedd y llwyau caru cynnar ddim yn rhai cywrain iawn – dim ond tŵls syml oedd ganddyn nhw - cyllell boced, bwyell a llif.

Wrth i'r llwyau dyfu'n fwy cain byddai'r cerfwyr yn dangos eu medrusrwydd trwy gerfio gwahanol symbolau yn y pren, pob un o'r symbolau yma â'i ystyr ei hun. Yma, mae'r symbol â'r ystyr wedi eu cymysgu. Fedrwch chi eu datrys? *Atebion ar dudalen 7.*

**Dwy galon** - Mae'r cerfiwr eisiau clywed clychau'r llan. Hynny yw, mae eisiau priodi'r ferch


**Allwedd, Twll y Clo -** Teyrngarwch. Fyddwn ni byth yn gwahanu

**Clychau** - Nifer y plant y byddai'r cerfiwr yn hoffi eu cael

**Cadwyn** - Allwedd i'm calon, edrychaf ar dy ôl di

**Peli Bychain mewn cawell** - Mae'r ddau berson yn caru ei gilydd

**Felly, y tro nesa byddwch chi'n meddwl am roi anrheg i'ch anwyliaid, beth am roi Llwy Garu fydd yn para am byth???**





# Pentre Mawr ac Owain Glyndŵr



Beth, meddech chi, oedd cysylltiad Llandyrnog ag Owain Glyndŵr, Tywysog olaf Cymru?

Yn y llyfryn 'Arysgrifau Mynwent Llandyrnog', mae map o'r fynwent yn nodi dau fedd diddorol. Wedi pasio prif fynedfa'r Eglwys, wrth ymyl wal yr Eglwys, roedd y Gymdeithas Hanes yn 1994 wedi cofnodi bedd JOHN GETHIN(G), CLERKE 1670, a, gyferbyn, wrth ymyl wal y fynwent, ei dad 'EDWARD GETHIN OF GORVEDWEN 16.9 (mwy na thebyg 1659).

Pwy oedd y teulu Gethin yma o 'Gorvedwen' tybed? Yn hen ddogfennau Pentre Mawr, mae sôn am Edward Gethin, Aberchwilar yn gyntaf yn 1619, yn dechrau cymryd diddordeb mewn tai a ffermydd yn hen drefgordd 'Corvedwen'. Erbyn 1646, mae Edward a'i wraig Jane yn berchen ar stad helaeth ym mhlwy 'Corvedwen', a nodir yn y ddogfen mai ei fab hynaf John Gethin, y clerigwr, fyddai'n etifeddu popeth ar eu hôl. Bu John Gethin yn byw yn Llanarmon ger Pwllheli, ac yn rheithor yn Llangybi cyn setlo ym Mhentre Mawr, ac mae cofeb iddo fo a'i wraig Dorothy uwchben drws yr hen laethdy ym Mhentre Mawr.




Yn 1677 y gwelir enwi Pentre am y tro cyntaf, lle mae'n sôn bod ŵyr i Edward Gethin, sef Edward Gethin arall, (mab John), am roi morgeisi sawl eiddo yn Llandyrnog i'w chwaer Dorothy, Plas Capten, Peniel, a oedd yn ddibriod. Enwir 'Pen Issa'r Waine' – help mawr at ei chynhaliaeth siŵr! Ond erbyn 1678 roedd Ambrose Hughes, Francis Kingson, Llangwyfan, a sawl un arall â chytundeb i 'godi dirwy' ar Edward Gethin, ar ei eiddo ym 'Mhen Issa'r Waine', 'Spythyd' a 'Y Tarcharfan'.

Y cyfeiriad olaf at deulu Gethin ym Mhentre Mawr oedd 1684 – Edward Gethin, mab John, yn rhentu tai a thiroedd Corvedwen a Lleweni i Peter Evans, Llundain, Masnachwr Pysgod (gŵr Dorothy, merch John Gethin yn ôl John Williams, *Ancient and Modern Denbigh*, *1850*). Erbyn 1719, mae mab Peter Evans, John, yn byw ym Mhentre Mawr. Roedd gan y John Evans yma dir yn Pennsylvania, efallai drwy ei gysylltiad â'i ffrind William, mab i'r enwog William Penn.

Yn ôl John Williams eto, roedd cysylltiad rhwng y gangen hon o deulu'r Gethin yn Llandyrnog â theulu'r Gethin, Cernioge, Betws y Coed. Gallai'r ddau deulu hawlio eu bod yn perthyn i Rhys Gethin, un o filwyr amlycaf Owain Glyndŵr yn ei frwydrau yn erbyn Brenin Lloegr ddechrau'r 15fed ganrif. Y fo, medden nhw, oedd yr arweinydd yn y frwydr fuddugoliaethus olaf – Brwydr Bryn Glas. Roedd Rhys Gethin ei hun yn dod o linach frenhinol – yn or-ŵyr i'r Tywysog Dafydd ap Gruffudd, brawd Llywelyn ein Llyw Olaf.

Bu'r Tywysog Dafydd yn chwarae'r ffon ddwybig ar hyd ei oes. Un munud yn driw i Harri'r 3ydd a chael rheolaeth Dinbych yn y 1260au am ymladd yn erbyn ei frawd Llywelyn. Ond erbyn 1282, roedd Gruffydd yn driw i'w frawd, ac yn paratoi ei filwyr yn ei gastell pren yn Ninbych i ymosod ar gestyll Penarlâg a Fflint. Pan laddwyd Llywelyn fis Medi 1282, casglodd Dafydd holl arweinwyr Cymru i Ddinbych a chael ei urddo'n Dywysog Cymru erbyn diwedd y flwyddyn. Ond, dim ond am ychydig fisoedd y parodd hynny. Fis

# Pentre Mawr ac Owain Glyndŵr: parhad

Mehefin 1283, cafodd ei ddal gan Edward 1af, a'i anfon mewn cadwyni i Ruddlan. A chafodd ddiwedd erchyll – ei lusgo gerfydd cynffon ceffyl drwy dref Amwythig cyn ei ddienyddio'n ddidrugaredd – y cyntaf o bwys yn y DU i'w hongian a'i chwarteru!

Erbyn 1352, roedd y teulu Gethin yn berchen ar Fedw Deg a Chernioge a Phlas Iolyn a llawer eiddo a thiroedd yn Nant Conwy. Cafodd Gruffydd ap Dafydd Goch, tad Rhys Gethin, ei gladdu ym mynwent Eglwys Sant Mihangel (tua 1365) – yr adeilad hynaf ym Metws y Coed.

Os ewch chi allan o Fetws y Coed i gyfeiriad Capel Curig, mae fferm o'r enw Hendre Rhys Gethin, a rhesi tai o'r enw Dôl Gethin a Theras Gethin. Felly, fel llawer teulu arall ar ôl cyfnod o wrthryfela ac anrhefn fawr yn y wlad am bron i ugain mlynedd, setlodd y teulu Gethin i wneud bywoliaeth o'r tir a dod yn rhan o hanes cyfoethog eu hardaloedd – a'n hardal ni yn Llandyrnog!



*Gwesty bach ym Metws y Coed yn tystio i bresenoldeb y teulu Gethin yn yr ardal.*



*Delw Gruffudd ap Dafydd Goch, tad Rhys Gethin*


**Prompt Travel**

**Taxi & Private Hire**

**4, 8 & 16-seat vehicles**
**24 hrs 7 days a week**

**Incorporating Vale Private Hire**

**01824 790485**
**07974 862027**

**Teithiau Prydlon**

**Tacsi a Hurio Preifat**


**Diolch o galon unwaith eto i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau i'r rhifyn hwn .**

**James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa Westminster: 0207 2194606

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook

# Tri lle

Pan ofynnwyd i ni sgwennu am dri lle oedd yn arbennig yn ein golwg ni, roedden ni'n meddwl y base'n dasg hawdd gan ein bod ni wedi teithio i nifer fawr o lefydd ar draws y DU ac ar draws y byd. Felly, mae wedi bod yn anodd dewis dim ond tri lle. Felly, mi benderfynon ni sgwennu am drip unwaith mewn oes gawsom ni yn 2018. Y tri lle sy'n aros allan yn y cof fwya' ydi Hong Kong, Seland Newydd ac Awstralia. Cychwynnwyd trefnu'r fenter yn Ionawr 2017, pan gawson ni e-bost gan y Clwb Carafanio a Gwersylla yn hysbysebu gwyliau ar draws y byd. Roedd y daith i Seland Newydd yn apelio, felly dyna gychwyn cynllunio'r daith i ochr arall y byd.

**Hong Kong**



*Y Bwdha Mawr*

Cychwynnodd ein taith ar 26ain Chwefror 2018, a hedfan o Fanceinion i Hong Kong wrth i'r Bwystfil o'r Dwyrain daro'r DU. Roeddem ni wedi bod yn Hong Kong yn yr 1980au cyn i'r wlad gael ei throsglwyddo'n ôl i Tsieina ac roedd gennym ni ddiddordeb gweld sut roedd pethe wedi newid. Y newid cynta' oedd bod y maes awyr wedi symud i un o'r ynysoedd. Dim glanio fel cynt rhwng tyrrau uchel Kowloon, a gobeithio y byddai'r awyren yn arafu cyn cyrraedd diwedd y llwybr glanio yn Kai Tak. Mae Hong Kong yn parhau'n ynys fywiog, ac roedd yn amlwg ei bod hi'n dal i dyfu. Yn ystod y tri diwrnod roedden ni yno, buom yn gweld nifer o farchnadoedd stryd oedd yn gwerthu popeth o jâd i nwyddau drud ffug. Roedd y tai bwyta nofiol yn Aberdeen yn paratoi sawl gwledd Tsieineaidd ragorol. Roedd cerflun o'r Bwda Mawr, 34 metr a adeiladwyd yn 1993 ar Ynys Lantau yn rhyfeddol!

**Seland Newydd**



*Jenny a Bryan yn Hobbiton*

Ymlaen â ni wedyn i Christchurch, lle cawsom amser i edrych ar lawer o atyniadau'r ddinas. Cawsom weld yr Eglwys Gardbord, a'r dref Bocsys Mawr dur a gafodd eu hadeiladu ar frys ar ôl y Ddaeargryn yn 2011. Cawsom *RV* (carafanét i chi a fi), a hwn fyddai'n cartref am dair wythnos er mwyn teithio o gwmpas y ddwy Ynys a gorffen yn Auckland. Ar ran gyntaf y daith yn Ynys y De, gwelsom *Mount Cook*, Dunedin a *Milford Sound* a'u golygfeydd anhygoel. Uchafbwynt arall oedd ymweld â Queenstown – prifddinas 'adrenalin' pobl anturus. Ond, mi wnaethon ni rhywbeth hollol groes i hynny a beicio'n hamddenol ar daith

# Tri lle: parhad

blasu gwinoedd! Yn Kaikoura, roedd y trip gwylio morfilod yn wych.

Ar ôl 12 diwrnod, mi groeson ni draw dros Gulfor Cook ar fferi i Ynys y Gogledd, ac i Wellington. Yna ymlaen i Rotarua, canolfan y diwylliant Maori a llawer giser syfrdanol. Wrth gwrs, fel ffans mawr o *Lord of the Rings*, roedd rhaid ymweld â Hobbiton, set ffilm y *Shire*. Diweddglo'r trip oedd crŵs drwy *Bay of Islands* a'i olygfeydd a'i ddolffiniaid gwych.

**Awstralia**



*Yn y Blue Mountains, gyda'r 'Three Sisters' yn y cefndir*




Gadawsom Auckland a hedfan i Brisbane i aros efo ffrindiau a chael golwg ar y ddinas gosmopolitaidd hon – gweld cartre'r *Bee Gees* a'r Traeth Aur lle roedd paratoadau mawr ar gyfer Gemau'r Gymanwlad. Yna, ffarwelio â'n ffrindiau a theithio efo car llog, y tro 'ma tuag at Sydney. Y stop cyntaf oedd Lismore, ond welson ni mo'r eirth Coala yn y warchodfa natur yn Tuki Tuki. Felly, dyma fynd i *Coffs Harbour*, cartref Parc Hwyl y Fanana Fawr ac i fyny am y Fforestydd Glaw yn Dorrigo lle gallwch chi gerdded ar lwyfan uchel i weld y golygfeydd syfrdanol yn ymestyn i'r pellter. Yna, i *Hunter Valley*, sy'n enwog am ei gwinllannoedd – wel roedd rhaid mynd ar daith blasu gwinoedd, yn doedd!

O'r diwedd, cyrraedd Sydney i aros eto efo ffrindiau am wythnos olaf ein taith. Aethon nhw â ni o gwmpas yr atyniadau arferol yn Sydney – y Tŷ Opera, Pont yr Harbwr – ddaru ni ddim mentro'i dringo hi 'chwaith, dim ond mynd ar hyd-ddi'n saff ar ddwy droed! Am ychydig o ddyddie, aethom i'r *Blue Mountains* – wel am olygfeydd, a ffurfiant trawiadol y creigiau wrth *Three Sisters.* Roedd hi'n druenus gweld y llanast yno ar ôl y tannau gwyllt y llynedd.

Roedd y trip gorau erioed ar fin dod i ben, felly'n gyndyn braidd, mi ddaliasom yr awyren am y daith hir adre. Ond wrth ddod i olwg Dyffryn Clwyd, doedd 'nunlle yn debyg i gartre'.

*Jenny a Brian Salter*

### Atebion pos y llwyrau caru

**Dwy galon** *Mae'r ddau berson yn caru ei gilydd*

**Allwedd, Twll y Clo** *Allwedd i'm calon, edrychaf ar dy ôl*

**Clychau** *Mae'r cerfiwr eisiau clywed clychau'r llan – mae eisiau priodi'r ferch*

**Cadwyn** *Teyrngarwch. Fyddwn ni byth yn gwahanu*

**Peli Bychain mewn cawell** *Nifer y plant y byddai'r cerfiwr yn hoffi eu cael.*

# Oriel luniau'r darllenwyr



*Yr adar yn cael brecwast yn Ffordd Las (Sylvia Evans)*



*(Hazel Wright)*



*Uwchlaw maes parcio Penycloddiau (Neil Connor)*




Sali'n gwlychu ei phawennau *(Ceri Roberts)*



Dutch ar lwybr a'r eira heb ei gyffwrdd (*Simon Jackson)*



*Fe ddaeth haul ar fryn (Anwen Davies)*



Giât oer... *(Louise Ecclestone)*



Y llifogydd ger Maes y Wern *(Olwen Rowlands)*



... a giât wlyb *(Gem Wood)*



*(Simon Jackson)*



*(Coral Clark)*

# Gair gan y Rheithor

Newydd gychwyn mae'r flwyddyn newydd, ond mae rhywun yn meddwl be arall all 2021 ei daflu aton ni. Yn anffodus, dydi'r sefyllfa ynglŷn â'r Pandemig Covid ddim wedi gwella rhyw lawer. Mae'r brechlynnau yn cynnig ychydig o obaith ar y gorwel, ond ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa'n achosi llawer o bryder. Daeth y llifogydd yn ystod yr wythnosau diwethaf â llawer o ofid yn eu sgil, a'r eira a'r rhew'n her. Rydyn ni'n cofio gaeafau llawer gwaeth na hwn, ond ar ben y cyfnod clo, mae'n ymddangos yn anoddach i ddioddef. Rydyn ni rhwng dau gyfnod a rhaid dal ati. Daw pethau'n well, ond i ni fod yn amyneddgar.

Mae'r Grawys yn prysur agosáu. Bydd Dydd Mawrth Ynyd neu Ddiwrnod Crempog ar Chwefror 16, diwrnod cyn dechrau'r Grawys. Yn y gorffennol, Dydd Mawrth Ynyd oedd y cyfle olaf i wledda cyn cychwyn y Grawys. Roedd pobl yn gorffen bwyta unrhyw fwyd bras yn y tŷ, i baratoi ar gyfer y bwyd plaen fyddai'n cael ei fwyta yn ystod y Grawys. Heddiw, cawn grempogau ar Ddydd Mawrth Ynyd, i'n hatgoffa o'r braster, y menyn a'r wyau fydd yn cael eu gwahardd yn ystod y Grawys.

Mae tarddiad yr enw Shrove Tuesday, yn dod o'r traddodiad o gyffesu pechodau – *shriving*. Roedd rhaid i'r Cristnogion fynd i gyffes cyn dechrau'r Grawys. Roedd hefyd yn ddiwrnod dathlu, y cyfle olaf i fwynhau cyn dyddiau tywyll Grawys. Ystyr ynyd yw gloddesta. Mae'r enw *Mardi Gras,* sy'n golygu dathlu, yn deillio o Ddydd Mawrth Ynyd. Mae'r gair Ffrengig *Mardi Gras* yn golygu Dydd Mawrth Bras, neu'r diwrnod pan fydd yr holl fraster, wyau a menyn i gyd yn cael eu bwyta.

Heddiw ryden ni'n mwynhau crempogau ar y diwrnod – bob tro gyda lemwn a siwgr i mi, ac mae'n siŵr y bydda i'n dal i fwyta braster, menyn ac wyau drwy gyfnod y Grawys. Ac eto, mae'n dal yn draddodiad i feddwl am fod heb rywbeth yn ystod y Grawys. Mae hepgor siocled yn boblogaidd iawn, neu canolbwyntio ar fwyta'n iach. Yn ddiweddar, bydd pobol yn gwneud cymwynas fach â phobl bob dydd.

Gadewch i ni gofio am 40 niwrnod Iesu yn yr anialwch, lle cafodd ei demtio gan Satan. Mae dyddiau tywyll y Grawys yn ein harwain at ddyddiau golau'r Pasg. Mae pawb yn gwybod bod dyddiau tywyll ac anodd yn gymaint rhan o fywyd ag ydi golau a hapusrwydd. Wrth i mi ysgrifennu hwn mae'r awyr yn duo mwy a mwy. Ond fe ddaw'r haul allan ac mi welwn ni bopeth yn blaguro eto.

Daeth yr eirlysiau unwaith eto ym mynwent Llangwyfan – golygfa anhygoel! Addewid am Wanwyn yng nghanol y Gaeaf.

Gyda phob bendith,

*Val Rowlands*




**Tambo's Total Care**
**Garden Maintenance**

**Gardening**
**Fencing**
**Tree Work**
**Turfing**
**Hedges**
**Logging**
**Pressure Washing**

**Contact Oli Williams**
**Mob: 07501022017**
**Email: ohwwilliams75@gmail.com**

# Nodiadau o Blas Ashpool

Dydi o'n beth da erbyn hyn ein bod ni fel Cymry wedi hen feithrin yr arfer o giwio – mae o wedi'i sodro'n sownd yn ein DNA ni, yn tydi? Ydech chi wedi sylwi, lle bynnag fyddwn ni, byddwn ni'n ciwio'n ufudd a threfnus ac, erbyn hyn yn cadw'r pellter 'dau fetr'. Wrth gerdded yn Ninbych y diwrnod o'r blaen, synnais ar faint o bobol oedd yn symud i'r ochr, yn aros yn amyneddgar, ac, mewn rhai achosion, yn croesi'r ffordd i'r ochr arall! Ymddygiad rhywun yn poeni efallai, ond mae'n dda gweld bod y mwyafrif yn ymddwyn mewn ffordd ystyriol.

Sut bynnag, rhaid i mi gyfaddef rhywbeth rŵan – doedd fy ymddygiad i ddim mor rasol pan es i i siopa ym Morrisons yn ddiweddar. Wedi gwisgo'r masg, gorffen y siopa, aros ar ddiwedd y ciw, dilyn y system unffordd a osodwyd yn ei le beth amser yn ôl, a mynd ymlaen dow dow, (gan sylwi pa mor daclus oedd y silffoedd coffi a grawnfwyd a'r amrywiaeth bwydydd wedi'u rhewi – wyddoch chi fod 'fish fingers' wedi eu gwneud o benfras neu hadog neu gallwch eu cael efo omega3 hefyd?). Ta waeth, pan oeddwn i'n agosáu at y til, yn aros i gael gorchymyn i fynd i 'til rhif 2', rhuthrodd dyn allan yn sydyn o eil y nwyddau cartref a'r bwyd cŵn, gyda throli a thair eitem.

Wel, dydw i ddim yn gwybod be ddigwyddodd i mi, ond yn sydyn dyma ryw ysbryd drwg yn dod i'r wyneb, ac yn fy ngyrru i sefyll o'i flaen. Ar yr eiliad honno dyma un o'r staff oedd yn edrych yn debyg i oruchwyliwr yn dod aton ni. Mi ddalies i fy nhir, ac egluro bod 'ein ciw' ni wedi bod yn aros am dros chwarter awr (wel, digon hir i mi fedru sylwi'n fanwl ar y nwyddau yn y ddwy eil olaf). Ac egluro hefyd ein bod ni hefyd yn dilyn cyfarwyddiadau unffordd y stôr. A dyma'r goruchwyliwr druan, na allai fod mwy na 12 mlwydd oed, yn ymddiheuro a dweud wrthyf nad oedd y 'system unffordd' yn bod erbyn hyn!

Allech chi feddwl y baswn i wedi rhoi'r gore iddi fan yne, a gadael i'r dyn druan symud ymlaen. O NA! Gallwn i glywed fy hun yn dechrau mynd ar gefn fy ngheffyl eto. Yn rhy uchel o lawer (a 'mhell dros hanner cwsmeriaid y siop yn clywed llais rhuo'r cyn-bennaeth) roedd yn rhaid i mi gael dweud wrth y goruchwyliwr y byddai'n syniad da yn y dyfodol i'n hysbysu ni o unrhyw newidiadau. Wel, fe wnaeth hynna'r tric! Symudodd y dyn yn ôl ac mi es i heibio iddo fo fel llong yn llawn hwyliau. Erbyn hyn, roeddwn i wedi dychryn fi fy hun efo fy ffrwydrad! Yn wir, dydw i ddim yn gwybod be' ddaeth drosto i. Fel arfer, mi fydda i'n cysidro fy hun yn berson goddefgar ac amyneddgar, ond o diar, am sioe! Felly, os mai y chi oedd y dyn, neu'n ei nabod o, hoffwn i ymddiheuro a diolch iddo fo am fod mor gwrtais. Rydw i'n addo na fydd hyn byth yn digwydd eto!

Heddiw mae llifogydd yn y Dyffryn ac mae'r ardd yn socian, ond eto mae 'na obaith. Mae'r eirlysiau allan a'r cennin Pedr ar y ffordd, mae'r adar yn canu nerth eu pennau, ac mae Natur yn bwrw 'mlaen efo'i dyletswyddau fel arfer.

Dwi'n gorffen gyda dyfyniad gan Michael Palin (fy eilun i erioed!)

*"To me there's the potential for something wonderful to happen every day. Don't ever be blasé about the world. However difficult things might be there is always something wonderful there."*

Geiriau hyfryd. Gadewch i ni ddal i obeithio am ddyddie gwell. Mwynhewch y garddio!

*Fiona Bell*



# Atgofion yn y byd amaeth

*(Gyda chaniatâd Rod Williams, Rhiwbebyll, dyma dameidiau i aros pryd cyn i'r erthygl ymddangos yn y cylchgawn* Fferm a Thyddyn*)*
'Ar fferm fechan yng nghysgod Bryniau Clwyd y treuliais y deng mlynedd gyntaf o'm hoes. Fferm fechan fynyddig ydi Fron Gelyn, Llandyrnog, gyda hanner can acar o dir glas ac wyth deg o dir mynyddig. Symudodd fy Nhaid a Nain yno yn 1906 fel tenantiaid i Stad y Cinmel. Yn ddiweddarach, cawsant gyfle i brynu'r fferm gan y tirfeddiannwr. Yn ystod ei gyfnod yn ffermio Fron Gelyn, mentrodd fy nhaid i brynu dwy fferm arall i sefydlu ei feibion yn y diwydiant. Yn ogystal â ffermio, byddai Taid yn rhedeg busnes dyrnu ar ffermydd lleol o gwmpas Llandyrnog a Nannerch, dros y mynydd yn Sir Fflint.

'Ar ddiwedd y tymor dyrnu byddai'n trefnu bwrdd am y dydd mewn caffi yn Ninbych, lle byddai'r ffermwyr yn dod i dalu eu biliau a chael sgwrs a phaned yng nghwmni ei gilydd.

'Cymerodd fy rhieni gyfrifoldeb y fferm ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Yn nhermau heddiw, bach iawn oedd nifer y stoc – tua 20 o wartheg godro, stoc ifanc, tua 150 o ddefaid mynydd, pedair hwch a dofednod. Un ffynhonnell arall o incwm oedd gwerthu cwningod gydag un teulu o Landyrnog yn cerdded i fyny bob dydd Mawrth i hela ar y mynydd'.

*(Ar ôl graddio, ei swydd gyntaf oedd yn Aberhonddu yn 1966 yn rhedeg Cynllun Fferm Fechan y Llywodraeth)*

'Un achlysur i mi gofio yw teithio i ardal ar y ffin gyda'r Prif Swyddog Bill Powell. Roedd y ffarmwraig wedi anfon llythyr at Weinidog Amaeth y DU, yn dilyn ymweliad gan y Swyddog Da Byw i gofrestru tarw dan y '*Bull Premier Scheme*'. Doedd hi ddim yn hapus o gwbwl a dyma ddywedodd yn y llythyr: "*I was visited by Mr --- --- the Livestock Officer and was assaulted by him*."

'Wrth gwrs, mi roedd hyn yn fater difrifol iawn. Ond yn ystod y cyfarfod, fe ddaeth i'r



*Rod yn fachgen ifanc gyda'i gansen laeth*

amlwg nad oedd y sefyllfa ddim mor ddrwg ag roeddem wedi ei ofni. Beth oedd yn poeni'r Ffarmwraig oedd bod Mr ------- wedi ei *'insyltio'* hi!! gan ddweud fod y tarw ddim i fyny â'r gofynion!

*(Ei swydd nesa' oedd gyda'r Adran Gwasanaethau Amaethyddol (DAS) yn Ne-orllewin Sir Gaerfyrddin)*

'Roedd yn amser reit ddiddorol i weithio yn Sir Gâr gyda datblygiad ciwbicls, a gydag amser, fe ddaeth silwair yn fwy poblogaidd na gwair. Yn fuan iawn wedi dechrau'r swydd, mae gen i atgof o ymweld â fferm laeth oedd ag enw da am wartheg pedigri. Mi roedd y ffermwr yn 'prowd' iawn o ddangos ei fuches a dyma daro sylw, "mae gan y fuwch yma bwrs bendigedig", medde fi. Roedd edrychiad y ffermwr yn dweud cyfrolau – pwy ydi'r boi yma?? – roeddwn yn gallu darllen ei feddwl o'r edrychiad! Fe ddysgais mai'r tarw sydd gan y *pwrs* a'r fuwch sydd gan *gadair* yn Sir Gâr!!

'Wrth i ciwbicls ddod yn fwy poblogaidd, roedd gennym ymgyrch i geisio annog mwy o ffermwyr i droi oddi wrth wair at silwair. Roedd grant hael at gost yr adeiladau, ond mi roedd yn fuddsoddiad reit trwm. Roedd hefyd

# Atgofion yn y byd amaeth: parhad



*Hau yn Fron Gelyn – Rod, ei dad, a William Jones*

rhaid buddsoddi mewn peiriannau silwair ac roedd cynllun cymhorthdal ar gael i annog ffermwyr i gydweithio a rhannu'r gost rhwng tair fferm. Mae gen i gof sefydlu sawl cynllun yn yr ardal (un gyda Brian Jones – Cwmni Castell Howell heddiw – roedd teulu Brian yn gwerthu cywion ar stondin ym marchnad Caerfyrddin ar y pryd) a'r rhan fwyaf wedi bod yn llwyddiant cyn i'r contractwyr yn raddol gymryd drosodd y gwaith.

'Fe gofiaf un grŵp yn ardal Caerfyrddin, dau ffermwr lleol ac un oedd wedi symud i'r ardal o dros y ffin. Mi roedd cyfnod gwneud silwair reit aml yn gwthio mlaen i wythnos denis Wimbledon ac roedd y ffermwr newydd o dros y ffin yn rhoi blaenoriaeth i'r tenis! Felly doedd y bartneriaeth yma ddim am barhau!'

*(Yn 1974 cafodd waith yn Adran Amaeth y Midland fel cynghorydd ariannol i ffermwyr Cymru)*

'Byddai teithio adref yn hwyr y nos ar ôl cyfarfod yn beth cyffredin iawn a sawl gwaith cefais fy stopio gan yr heddlu yn fy holi! Fe gofiaf un achlysur yn arbennig pan oeddwn i'n teithio am Lanrhystud ac yn poeni braidd bod angen teiars newydd ar y car. Dyma gar heddlu yn dod i 'nghyfarfod i ac wedi iddo fynd heibio dyma sylwi ei fod wedi brecio'n sydyn gyda'r bwriad o droi'n ôl i fy nilyn. Wrth lwc, mi oedd yna lôn ar y chwith i droi mewn iddi. Stopio'r car a diffodd y golau! Mewn cwpwl o funudau dyma gar yr heddlu heibio fel cath i -------.

'Wedi iddynt ddiflannu o'r golwg, dyma ail-ddechrau ar fy nhaith ac yn teimlo'n reit fodlon fy mod wedi arbed tri phwynt ar fy leisens. Wrth ddod i mewn i Aberystwyth, dyma'r car heddlu yn fy nghyfarfod unwaith eto a'r tro hwn, doedd ddim lle i ddengyd. Cefais fy holi'n dwll gan y ddau swyddog, ac edrych ar bopeth oedd yn y car, ond ar ddiwedd y dydd teimlo'n reit ddiolchgar mae'r unig gyngor oedd "*Get the Midland Bank to buy you a new set of tyrrrres*"!'

*Rod Williams*




# Bwyd Bermiwda

Ar fore rhewllyd ym mis Ionawr, mae’n meddyliau ni’n siŵr o grwydro i lefydd gwyliau hyfryd yn yr haul. I mi, mae’n golygu un peth - ymweld â’r teulu ar ynys Bermiwda. Yr adeg yma y llynedd, roeddwn i’n brysur yn trefnu taith yno er mwyn bod yno erbyn y Pasg. Mi wnes i’n siŵr fod digon o le yn y bag i gario dau wy Pasg ar gyfer yr wyrion, Leo a Frankie. Mae siocled yn drît anhygoel yn Bermiwda, gan fod 75% o dreth siwgr ar siocled, fferins, bisgedi a chacennau! Medrwn ni yn y wlad hon daflu bar o siocled gwerth £1 mewn i’n fasged siopa heb feddwl, ond yn Bermiwda, byddai hwnnw’n yn costio’r swm anferthol o tua £10!!

Felly, mi fydden nhw wedi bod wrth eu bodd gyda’r wyau Pasg, ond roeddwn i’n edrych ymlaen at wledda ar un o fwydydd arbennig yr ynys – fy mrechdan pysgod Bynen y Pasg! Mae pawb yn gwirioni ar hon, a bydd y cyfryngau cymdeithasol yn llawn o luniau a hysbysebion wrth i’r gwestai gystadlu am y fynsen orau ar yr ynys! Mi fedrwch chi brynu brechdan bysgod drwy’r flwyddyn, a dewis pa fath o fara’r hoffech chi gael ynddi. Y bara mwya’ poblogaidd ydi’r un fydden ni’n ei alw’n *bara brith*! Defnyddir pysgodyn lleol â gwead eitha swmpus, rhoi haen o gytew arno, a’i weini gyda cholslo, salad a chaws. Rydw i wedi bwyta’r fersiwn ‘bara brith’, ac mi roedd yn hynod o flasus. Dyma lun o’r fersiwn symlaf o Fynen Pysgodyn Pasg cartref.



Bwyd arbennig arall ar yr ynys ydi cawl pysgod (*chowder*). Os cawsoch chi *chowder* yn San Francisco, mae’n cael ei weini efo bara crystiog siâp bowlen, ac roeddwn i wedi meddwl y byddai’n debyg i’r ffurf American-aidd, ond na, jyst bowlen gyffredin. Mae sawsiau sieri pupur i’w roi arno, ac mae popeth yn go sbeislyd! Wrth lwc, roedd yr olygfa ardderchog o’r bwyty yn St George yn help – a digonedd o ddŵr! Y stop nesa oedd y siop hufen iâ i gael trît blasus ar y ffordd adre. Mae ’na lawer o siopau hufen iâ ar yr ynys – yn union fel yn *Chilly Cow,* mi fyddan nhw’n gwneud eu hufen iâ yn eu cartrefi. Ond y gwahaniaeth mwyaf ydi fod y mynyddoedd hufen ia yma’n cynnwys rỳm – mae hon yn un o ynysoedd y Caribî!!

Mae ’na hefyd sawl coctel rỳm, a’r un mwyaf enwog ydi’r *Swizzlers.* Gallwch brynu *swizzler* rỳm yn y bariau i gyd, ond does dim byd tebyg i gael jygiaid ohono o Dafarn y Swizzler – gwnewch yn siŵr na fyddwch chi’n dreifio adre wedyn!

Dyma’r rysáit ar ei gyfer:

1.5 owns o rỳm,
2 owns o sudd pinafal,
2 owns o sudd oren,
diferyn o grenadin,
2 ddiferyn o chwerwon angostwra.



# Bwyd Bermiwda: parhad

Un arall o fy ffefrynnau ydi ‘Dark’n Stormy’ – cwrw efo cymysgedd o rỳm a sinsir.

Fis Rhagfyr 2019, mi wnes i ddarganfod *eggnog* – wy wedi’i guro â llaeth. Doedd hwn ddim wedi apelio llawer ata i, ond yn ffres yn Bermiwda, mae’n flasus iawn. Mae o i’w weld mewn oergell ym mhob siop, drws nesa i’r llaeth – mae’n boblogaidd iawn. Allwch chi ei yfed fel y mae o, neu roi siot o rỳm Gosling!

Cawsom ein cinio ’Dolig yn *Tuckers* – gwesty, clwb golff a bwyty crand. Dwi erioed wedi bod mewn lle efo cymaint o sioe Nadoligaidd. Roedd ’na ferched wedi eu gwisgo fel balerinas, a choblynnod, ac wrth gwrs, ymweliad gan Siôn Corn. Bwyd arbennig ’Dolig yma ydi’r pei *cassava*. Ond gan mai bwffe oedd hwn, weles i mo’r pei *cassava*, a chefais i mo’i flasu fo! Doedd dim lle ar fy mhlât beth bynnag.

Does dim llawer o obaith y ca’ i fynd i Bermiwda y Pasg yma eto, ond, alla i fentro bod bwydydd a digwyddiadau'r un mor unigryw a hynod ar unrhyw amser o’r flwyddyn yn yr ynys.

*Margaret Roberts*



**Ar ran holl dirfeddianwyr y fro: cofiwch gau gatiau ar eich holau pan fyddwch yn cerdded ar draws tir fferm a chadwch eich ci ar dennyn.**

# Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan

Ar Ragfyr 16eg, cynhaliwyd cyfarfod ar *zoom* gyda Mrs Helen Papworth yn rhoi sgwrs fer i’r aelodau ar ‘Stanley and the Napier Expedition’. Darlith ddiddorol iawn oedd hon am H.M. Stanley yn 1868 fel newyddiadurwr i’r New York Herald yn dilyn taith i achub cenhadon a oedd wedi eu herwgipio yn Abyssinia (Ethiopia heddiw) gan yr Ymerawdwr Tewodros II.

O dan arweiniad Cadfridog Syr Robert Napier, cymerodd milwyr Prydeinig dros dri mis i gyrraedd y castell ger Magdala lle roedd y cenhadon yn cael eu dal. Ymosodwyd ar y castell ac achubwyd y cenhadon.

Roedd y sgwrs yn ddiddorol iawn, ac roedd tua 25 o aelodau yn bresennol. Y gobaith yw y bydd cyfarfod zoom arall ym mis Chwefror. Os hoffech chi ymuno â’r gymdeithas, cysylltwch â’r ysgrifennydd, Hywel Davies, drwy e-bostio llangwyfanhistory@hotmail.com.

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ionawr y Cyngor Cymuned

- Mynegwyd pryder am ddiffyg presenoldeb yr Heddlu yn ystod pen wythnos yn gynnar ym mis Ionawr, pan oedd hi'n weddol amlwg fod pobl o'r tu allan yn gyrru tuag at ardal Llangwyfan ac yn diystyru rheolau Covid-19 – bydd y mater yn cael ei godi eto gyda Heddlu Gogledd Cymru. Fodd bynnag, rhaid derbyn fod y tywydd yn eithafol a bod adnoddau'r Heddlu wedi eu defnyddio mewn ardaloedd eraill oedd yn achosi pryder.
- Derbyniwyd cwynion am ieuenctid yn ymgynnull yng Nghae Nant fin nos ac yn anwybyddu pellter cymdeithasol ayb – penderfynwyd gweld a fyddai'r heddlu'n medru cynyddu eu presenoldeb, ac efallai rhoi cyngor.
- Er bod y parcio anystyriol wrth Oliver's Row wedi ei ddatrys unwaith, mae'r un broblem wedi codi eto gyda cherbyd arall – y mater wedi ei drosglwyddo i SCCH.
- Cyllideb ddrafft: cyflwynodd y Clerc y gyllideb ddrafft a chytunwyd bod archebiant 21/22 yn aros yr un fath â 20/21 – £10,688.
- Llinellau gwyn ger Llangwyfan – gwnaed cais i GSDd eu hadnewyddu.
- Offer maes chwarae: mae archeb wedi ei chyflwyno i Wicksteed am offer chwarae ychwanegol yng Nghae Nant – mae 11 wythnos o oedi yn y broses.
- Diolchwyd yn bersonol i'r Cadeirydd am glirio'r palmant a'r arhosfan bysus gyferbyn â'r Ceffyl Gwyn.
- Coastal Carpets wedi gosod carped yn yr Ystafelloedd Coco, ond nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i'w hailagor.
- Mynegwyd pryder gan breswylwyr ardal Llangwyfan bod y biniau halen newydd wedi eu gosod mewn lleoedd amhriodol – mae trafodaethau ar y gweill ynghylch eu hailosod.
- Trafodwyd cais cynllunio ar gyfer mynediad newydd i gerbydau ar dir gyferbyn â Bryn Tirion, Bodfari.
- Er bod tyllau ffyrdd ger y Kinmel Arms a Groes Efa wedi eu trwsio unwaith, nid oedd y gwaith yn cyrraedd y safon dderbyniol. Yn dilyn yr eira a'r rhew diweddar, ail-ymddangosodd y tyllau, sy'n siomedig dros ben – cysylltu â CSDd unwaith eto. Fodd bynnag, efallai fod y darn hwn o'r ffordd wedi ei glustnodi am arwyneb newydd, oni bai fod CSDd yn ailgyfeirio'r arian at broblemau pwysicach.
- Roedd cwynion am y dŵr rhwng Cerrig-llwydion a'r Gables – mae'n hollol ddibynnol ar gyfresi grip a sianel oedd yn methu ag ymdopi â'r sefyllfa ar adegau. Y Clerc i holi a ellir cynyddu maint y gripiau a chadw'r sianeli ar agor. Mae angen ateb hir-dymor.

# Anghywir!



Mae'r darlun hwn, *Snow at Llangwyfan* gan Kyffin Williams ar werth ar wefan Trinity House Paintings, bargen am £75,000.

Mae'r disgrifiad yn dweud ei fod yn 'darlunio pentref gwledig Llangwyfan, Sir Ddinbych, o dan eira.' Well i rywun ddweud wrth y cwmni bod dwy Langwyfan yng Nghymru?